






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

25 Medi 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

25 Medi 2020

Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae nifer yr achosion o COVID-19 yng Nghymru yn parhau i gynyddu a bellach gwelir cynnydd mewn derbyniadau i'r ysbytai a'r Unedau Gofal Dwys sy'n gysylltiedig â COVID. Yr amcangyfrif diweddaraf o R gan Grŵp Cyngori Gwyddonol Cymru ar Argyfyngau yw 1.0 ac 1.4, ond disgwylir i'r ffigur gwirioneddol fod yn uwch.
- Mae arwyddion calonogol yng Nghaerffili bod cydymffurfio â mesurau lleol yn ddigon i leihau nifer yr achosion o COVID-19.
- Os nad yw'r mesurau presennol yn dod ag R islaw 1 yna bydd angen cyfyngiadau pellach i reoli'r epidemig yng Nghymru. Y cynharaf y cyflwynir y mesurau ychwanegol, y mwyaf effeithiol fydd y mesurau hyn.
- Dylai cyrff y Sector Cyhoeddus gyfathrebu â'r cyhoedd i gynyddu'r ddealltwriaeth o risg. Mae'n eithriadol o bwysig i bawb ddilyn y canllawiau, gan y gall unrhyw un gyfrannu at drosglwyddo'r haint, hyd yn oed os ydynt wedi'u heintio o'r blaen.
- Cyhoeddir papurau o SAGE a ystyriwyd gan y Grŵp a'r Gell Cyngor Technegol yma: <https://www.gov.uk/government/collections/scientificevidence-supporting-the-government-response-to-coronavirus-COVID19#meeting-minutes-and-supporting-papers>

Cyfradd dwf

- Amcangyfrifir bod y gyfradd dwf ddyddiol ar hyn o bryd rhwng 0.01 a 0.05 yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiau fod yn cynyddu hyd at 1% a 5% y dydd. Mae hyn yn is na'r gyfradd ar gyfer y DU ond mae'n uwch nag amcangyfrif yr wythnos diwethaf.
- Mae cryn ansicrwydd ynghylch y gyfradd dwf wirioneddol ac mae'r data a ddefnyddir yn amodol ar oedi o ran amser felly efallai na fydd unrhyw gynnydd diweddar mewn achosion yn cael ei adlewyrchu yn y gyfradd dwf.

Rhif atgynhyrchu

- Yr amcangyfrif diweddaraf gan SAGE o'r rhif atgynhyrchu R_t ar gyfer Cymru yw rhwng 1.0 a 1.4. Dangosir yr amcangyfrif o R_t fel ystod heb amcangyfrif canolog. Mae'r bwlch hyder mawr yn awgrymu lefel uchel o ansicrwydd ynghylch union werth R_t .
- Mae nifer yr achosion positif wedi cynyddu yng Nghymru dros y tair wythnos diwethaf ond mae nifer y profion yn effeithio'n fawr ar y mesur hwn ac mae'n cynnig mesur ansicr. Gan nad ydym yn dymuno cyrraedd pwynt lle ceir y mesur mwy effeithiol sef derbyniadau i'r ysbyty neu farwolaethau, mae rhywfaint o ansicrwydd yn dderbyniol.
- Bydd gwerth R_t cyson o dan 1 yn arwain at leihad mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty, tra bydd gwerth R_t cyson uwchben 1 yn arwain at gynydd mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty.


Yr Amcangyfrif Presennol o R_t yng Nghymru

- Mae tystiolaeth bod amrywiadau bychan mewn R_t rhwng gwahanol wledydd y DU. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn rhannol oherwydd y niferoedd llai o achosion a marwolaethau o'i gymharu â Lloegr.
- Ni fydd unrhyw newidiadau o ran trosglwyddo a allai fod wedi digwydd yn y ddwy i dair wythnos diwethaf yn cael eu hadlewyrchu mewn data clinigol eto, nac ychwaith felly yn yr amcangyfrifon cyfredol o R_t .


Diweddariad rhyngwladol

- Mae'r DU ychydig ar ei hôl hi o ran amser o gymharu â gwledydd eraill fel Ffrainc a Sbaen ond yn dilyn llwybr tebyg. Mae'r cynnydd mewn achosion a chyflymder y cynnydd yn achosi problemau wrth i'r feirws ledaenu ar draws Ewrop gyda Sbaen, Ffrainc a'r Balcanau bellach yn gweld cynnydd amlwg.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos sut mae achosion 14 diwrnod COVID-19 fesul 100,000 o bobl wedi newid ar draws Ewrop o wythnos 30 – 37. Mae data ar y darlun ledled Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi data a pholisïau profi amrywiol, ar gael yma: <https://www.ecdc.europa.eu/en/COVID-19-pandemic>


Week 36-37




Week 35-36



Week 34-35




Week 30-31



Glynu at y mesurau presennol a symudedd


- Mae data diweddaraf [IPSOS MORI](#) ar gyfer Cymru yn dangos sefydlogrwydd yn y rhan fwyaf o'r cwestiynau sy'n ymwneud â glynu wrth ymddygiad lliniarol allweddol. Cynyddodd y ganran a ddywedodd eu bod wedi defnyddio gorchudd wyneb i 71% (roedd yr arolwg yn cwmpasu 11 - 14 Medi – gyda gorchuddion wyneb yn orfodol mewn llawer o leoliadau dan do o 14 Medi).
- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys oddeutu 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru 16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.



- Mae data symudedd ar gyfer Cymru a'r DU yn dangos darlun tebyg i'r wythnos diwethaf yn bennaf.
- Yng nghanol mis Ebrill roedd symudedd [defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen. Mae hyn 1% yn is na'r llinell sylfaen ac yn debyg i'r wythnos diwethaf. Mae 22% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn aros yn eu hunfan, yn debyg i'r wythnos flaenorol. Ar ddechrau mis Ebrill roedd tua 45% yn aros yn eu hunfan – roedd hyn tua 18% ar ddechrau mis Mawrth.
- Mae [data Apple](#) yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi gostwng ychydig yn ystod yr wythnos diwethaf. O'i gymharu â'r llinell sylfaen mae'r data'n uwch na'r gwledydd eraill, ond mae'r bwlch wedi lleihau ychydig ymhellach yn ystod yr wythnos diwethaf. Mae ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded a cheisiadau am gyfarwyddiadau trafndiaeth gyhoeddus ill dau wedi cynyddu yn ystod yr wythnos diwethaf.
- Mae [data symudedd Google](#) yn dangos cynnydd bach mewn gweithleoedd yn ystod yr wythnos diwethaf ac mewn lleoliadau preswyl. Nid yw categorïau eraill ar gael ar hyn o bryd oherwydd pryderon ynghylch ansawdd y data, ond byddant ar gael eto yn fuan.
- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd patrymau symudedd yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin gwelwyd cynnydd mwy mewn symudedd yn Lloegr na Chymru, gyda'r Alban yn dangos patrwm tebyg i Gymru. Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd symudedd yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr a pharhaodd hynny drwy gydol mis Awst.

Dangosodd yr wythnos gyntaf ym mis Medi ostyngiadau mewn symudiadau yng Nghymru, gydag ychydig iawn o newid yn y pythefnos diwethaf.

- Mae data ffonau symudol dienw ac agregedig gan O2 wedi dangos bod teithiau sy'n dechrau yn Rhondda Cynon Taf wedi gostwng 5 pwynt canran yn ystod yr wythnos diwethaf (hyd at ddydd Mawrth 22). Yn dilyn y gostyngiad yng Nghaerffili rhwng 8 a 15 Medi, mae teithiau wedi cynyddu yn ystod yr wythnos diwethaf - ond maent yn parhau'n is nag yr oeddent cyn dechrau'r cyfyngiadau lleol. Mae data Google (hyd at yr 21ain) yn dangos cynnydd mewn symudedd preswyl (h.y. pobl yn aros gartref fwy) ar gyfer Rhondda Cynon Taf a Chaerffili yn dilyn y cyfyngiadau lleol.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr - 6 Chwefror 2020, yw'r llinell sylfaen. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar hyn o bryd.



Canlyniadau Arolwg Heintiau COVID-19 (CIS) SYG

- Ar gyfer yr wythnos 13 Medi i 19 Medi, roedd cyfartaledd o 0.35% o'r boblogaeth gymunedol wedi'u heintio â COVID-19 (cyfwng credadwy 95%: 0.14% i 0.66%).

- Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 300 (cyfwng credadwy 95%: 1 o bob 700 i 1 o bob 200), neu 10,800 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95%: 4,400 i 20,200).
- Mae data'n awgrymu bod y gyfradd gadarnhaol wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf, o fesur blaenorol o 0.05% o'r gymuned.
- Mae'r model diweddaraf yn rhoi amcangyfrif llawer uwch na'r amcangyfrif blaenorol a fodelwyd. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu o hyd, mae'r canlyniadau'n sensitif iawn i newidiadau bach yn nifer y profion cadarnhaol hyn.
- Gan ystyried y CIS a ffynonellau gwybodaeth eraill, megis data profion lechyd Cyhoeddus Cymru, gallwn fod yn hyderus bod y gyfradd wedi cynyddu'n ddiweddar, er efallai nad yw'r cynnydd 'gwirioneddol' mor sydyn ag a awgrymwyd gan y model diweddaraf.

Ymchwil

- Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn parhau i gydweithio â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i ddefnyddio dull DU gyfan i waith ymchwil a datblygu COVID-19.
- Ar hyn o bryd mae 225 o brosiectau wedi'u hariannu gan UK Research and Innovation (UKRI). Mae llawer o'r ymchwil hon wedi'i harwain gan ymchwilwyr drwy alwadau agored.
- Mae ymdrech yn awr i ganolbwyntio ar ddull sy'n cael ei arwain gan gomisiynu, er mwyn mynd i'r afael yn fwy uniongyrchol ag anghenion polisi.
- Mae Cymru'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o recriwtio cleifion i astudiaethau lechyd y Cyhoedd brys ac ar hyn o bryd mae 5580 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau lechyd y cyhoedd brys COVID-19, sy'n gynydd o 67 yn y 7 diwrnod diwethaf.
- Mae rhaglen ymchwil i frechlynnau wedi'i sefydlu mewn partneriaeth ag lechyd Cyhoeddus Cymru.
- Mae nifer o brosiectau ymchwil a arweinir gan ddata ar y gweill, gan ddefnyddio data cysylltiedig dienw drwy'r banc data Cyswllt Data Dienw Diogel (SAIL).
- Mae timau ymchwil a thystiolaeth mewn sefydliadau ledled Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, lechyd Cyhoeddus Cymru a Thechnoleg lechyd Cymru wedi bod yn darparu adolygiad cyflym a synthesis tystiolaeth mewn ymateb i gwestiynau brys.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

Ar 24 Medi 2020

- Mae cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw Iechyd Cymru yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl wedi cynyddu
- Parhaodd ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt (ARI) ac achosion COVID-19 a amheuir hefyd i gynyddu.
- Ar hyn o bryd, mae galwadau ambiwlans sydd o bosibl yn gysylltiedig â COVID-19 yn sefydlog.
- Yn ystod wythnos 38 cynyddodd nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol ac mae'r canran positifrwydd bellach yn uwch na 3%. Mae nifer yr achosion sy'n benodol i grwpiau oedran ar eu huchaf yn y rhai iau na 50 oed.
- Mae achosion diweddar wedi cynnwys teithwyr sy'n dychwelyd a throsglwyddiadau lleol gan gynnwys lleoedd gwaith a rhwydweithiau cymdeithasol.
- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd yn yr ysbyty a'r ICU wedi cynyddu.
- Mae prif ffocws gweithgarwch diweddar wedi bod yn ardaloedd awdurdodau lleol De Cymru, ac mae gan ardaloedd Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chasnewydd gyfyngiadau lleol ar waith ar hyn o bryd. Nodir tueddiadau cynyddol mewn awdurdodau lleol eraill hefyd.
- Nodwyd gweithgarwch mewn ysgolion yn ddiweddar.

Dangosfwrdd Data'r GIG


- Diweddarwyd data ysbytai ar 25/09/2020

Unedau Gofal Dwys Lefel 3


- O'r cyfanswm o 145 (cynnydd o 12 ers yr adroddiad diwethaf) o gleifion yn Unedau Gofal Dwys L3 Cymru:
 - Mae 13 yn gleifion COVID (9 yn BIPCTM, 2 yn BIPBC, 1 yn BIPBA ac 1 yn BIPAB)
 - Amheuir bod 5 yn gleifion COVID (2 yn BIPAB, 2 yn BIPBC, ac 1 yn BIPCTM)
- O blith y byrddau iechyd sydd ag Unedau Gofal Dwys lefel 3:

- Mae 65.5% o welyau BIPBA yn cael eu defnyddio (gydag 1 claf COVID wedi'i gadarnhau)
 - Mae 59.4% o welyau BIPAB yn cael eu defnyddio (gyda 2 glaf yr amheuir sydd â COVID ac 1 claf COVID wedi'i gadarnhau)
 - Mae 59.0% o welyau BIPCTM yn cael eu defnyddio (gydag 1 claf yr amheuir sydd â COVID a 9 claf COVID wedi'u cadarnhau)
 - Mae 57.1% o welyau BIPBC yn cael eu defnyddio (gyda 2 glaf yr amheuir sydd â COVID a 2 glaf COVID wedi'i gadarnhau)
 - Mae 56.3% o welyau BIPHD yn cael eu defnyddio (heb unrhyw gleifion COVID)
 - Mae 48.1% o welyau BIPCF yn cael eu defnyddio (heb unrhyw gleifion COVID)
- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf COVID-19 positif ac sydd mewn Unedau Gofal Dwys mewn ysbytai yn y gwahanol fyddau iechyd yng Nghymru.


Daily L3 ICU Confirmed COVID19 Patients



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty ac yr amheuir neu a gadarnhawyd sydd â COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl sydd wedi gadael yr ysbyty ac yr amheuir neu a gadarnhawyd sydd â COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos cleifion a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys ac yr amheuir neu a gadarnhawyd sydd â COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.

Daily COV+/SUS L3 ICU Admissions



Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi Tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws y gwahanol gyngor a roddir.

